

Tasg 3

(Estynnol, sbardun 2)

Chwarae gemau

1. Darllenwch y darn sy'n disgrifio'r gêm **Taflu ar flanced** eto.

Taflu ar flanced

Gêm ar gyfer tua 30 o bobl

Yn y gêm hon, mae'r bobl yn sefyll o gwmpas blanced fawr gan ddal ymyl y flanced. Mae un person yn sefyll ar ganol y flanced. Gyda'i gilydd, mae'r bobl yn ysgwyd y flanced, gan daflu'r person yn y canol i fyny i'r awyr. Rhaid i'r person yn y canol geisio glanio ar y flanced heb syrthio.

2. Nawr, darllenwch y cyfarwyddiadau ar gyfer sut i chwarae'r gêm **Taflu ar flanced**.

Taflu ar flanced

Gêm ar gyfer tua 30 o bobl

Cyfarwyddiadau:

1. Sefwch mewn cylch o gwmpas blanced fawr.
2. Daliwch ymyl y flanced.
3. Rhaid i un ohonoch chi sefyll ar ganol y flanced.
4. Gyda'ch gilydd, rhaid i chi ysgwyd y flanced fel bod y person yn y canol yn cael ei daflu i fyny i'r awyr.
5. Rhaid i'r person yn y canol geisio glanio ar y flanced heb syrthio.

3. Sut mae'r ddau ddarn yn wahanol i'w gilydd? Ysgrifennwch eich syniadau isod ac yna thrafodwch hyn gyda phartner.

.....

.....

.....

.....

.....

4. Ysgrifennwch gyfarwyddiadau ar gyfer gêm rydych chi'n ei chwarae neu gêm roeddech chi'n arfer ei chwarae pan oeddech chi'n iau, ond peidiwch â'i henwi.

Bydd rhaid i chi ddefnyddio'r ffurfiau gorchmynnol, e.e.

Sefwch ...

Eisteddwch ...

Taflwch ...

Dechreuwch drwy ...

ac ati

Efallai y bydd rhaid i chi ddefnyddio'r gair **Rhaid** hefyd.

Rhaid i chi aros ...

Rhaid i chi gael bwrdd a dis a chownteri lliw.

Cyfarwyddiadau ar gyfer gêm ddirgel

-
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

- Ar ôl gorffen, darllenwch y cyfarwyddiadau i'r grŵp. Rhaid iddyn nhw wrando a cheisio dyfalu beth yw'r gêm.